# Ffurflen Ymateb Rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad cwblhau:** Ionawr 2025

**Cyfeirnod dogfen:** 4675A2025

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | |
| A1 | **Cynllun Gwasanaethau Oedolion**<br>Dylai'r Cyngor ddatblygu Cynllun Adran Oedolion sy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu gofal cartref, sydd yn perchnogi rhaglen waith yn deillio allan o Adroddiad Llechen Lan ac Archwilio Mewnol, a phennu uchelgeisiau clir a cherrig milltir cysylltiedig i ddarparu | • Mae'r Grŵp Prosiect Gofal Cartref eisoes wedi sefydlu rhaglen waith gyda ffrydiau gwaith penodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gofal cartref ar bob lefel gweithredol o'r system. Cyflwynwyd adroddiad i Cabinet y Cyngor 11/02/2025 yn argymell addasu rhan Gwynedd Ofalgar o Gynllun y Cyngor i roi sylw a blaenoriaeth briodol i'r angen i ymateb i'r heriau yma. | 01/04/2025 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | nodau clir a gwella'r gallu i olrhain cynnydd. | Bydd yr addasiadau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ar gyfer 2025/26 a thu hwnt a'r cynnydd yn cael ei fonitro a'i graffu trwy'r trefniadau herio perfformiad sefydlog.<br>• Bydd Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn perchnogi y rhaglen waith, gyda arweinwyr penodol i'r dair ffrwd gwaith ;<br>**Systemau a phrosesau** – Pennaeth Cynorthwyol Busnes a Chomisiynu<br>**Darpariaeth mewnol** – Pennaeth Cynorthwyol Darparu Mewnol<br>**Gwreiddio'r ffordd o weithio** – Pennaeth Cynorthwyol Oedolion | 01/04/2025 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| A2 | **Cyllidebau**<br>Dylai'r Cyngor adolygu cyllideb y gwasanaeth, gan gynnwys adnoddau ychwanegol i gwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb | • Fel cam cyntaf mae Cabinet y Cyngor eisoes wedi awdurdodi addasiadau i strwythur y gyllideb i adlewyrchu gwir wariant.<br>• Bydd y gyllideb ar gyfer darparu gofal hefyd yn cael ei dosrannu fesul ardal Tîm Adnoddau Cymunedol. | 01/04/2025<br>01/04/2025 | Pennaeth Cyllid a Pennaeth Oedolion<br>Cyfrifydd Grŵp (Oedolion) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. | | | |
| A3 | **Gwybodaeth a Systemau**<br>Dylai'r Cyngor ddatblygu ei brosesau a'i systemau gwybodaeth, comisiynu ac ariannol i ddarparu gwybodaeth integredig gadarn am weithgareddau a chostau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn awr ac yn y dyfodol. | • Fel rhan o’r Rhaglen Waith Gofal Cartref mae sylw penodol ar ddatblygu systemau gwybodaeth a data addas a phriodol a sicrhau perchnogaeth a rheolaeth i'r rolau mwyaf perthnasol a gweithredol yn y maes/system gofal cartref | 01/04/2025 | Pennaeth Cynorthwyol – Busnes a Chomisiynu / Pennaeth Cynorthwyol Oedolion |
| A4 | **Sicrhau Gwerth am Arian**<br>Dylai'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau i asesu a yw'r adnoddau y mae'n eu dyrannu yn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i werthuso a yw'r gwasanaeth yn darparu gwerth am arian ac i wella'r broses o wneud penderfyniadau. | • Gwerthuso parhaus o’r model gofal cartref er mwyn gweld i ba raddau mae’r manteision a fwriadwyd wedi dwyn ffrwyth.<br>• Ail edrych a negodi lefel yr oriau gofal cartref ym mhob is ardal, er mwyn sicrhau fod lefel ddigonol o ofal ar gael yn yr is ardaloedd, dim mwy a dim llai.<br>• Rhoi mwy o berchnogaeth i'r gweithlu ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â gofal cartref yn yr is-ardaloedd | 30/09/2025<br>30/09/2025<br>30/09/2025 | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>Pennaeth Cynorthwyol Busnes a Chomisiynu / Pennaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Annog diwylliant o fentergarwch, creadigrwydd a hyblygrwydd ymysg y gweithlu a bod sgyrsiau o’r fath yn digwydd yn lleol gyda darparwyr fel aelodau llawn o’r timau TAC | 31/03/2026 | Cynorthwyol Oedolion<br>Pennaeth Cynorthwyol Darparu Mewnol |